

Awgrymiadau euraidd ar gyfer caffael i labordai

Tîm Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe

1 A oes angen prynu?

- a) A oes modd i chi rannu yn eich labordy? Gall defnyddio offer, cemegion a nwyddau cymunedol arbed ar brynu, pecynnu a deunyddiau. Siaradwch â'ch cydweithwyr labordai i gael gwybod a yw eu grantiau'n caniatáu hyn.
- b) Methu rhannu? Ceisiwch weld a oes modd lleihau maint/nifer y cemegion neu nwyddau i leihau eitemau diangen y bydd angen gwaredu arnynt pan fyddwch wedi gorffen eich ymchwil.

2 Costau oes gyfan

- a) Beth sydd angen ar eich offer i weithio, e.e. bylbiau, hidlwyr, batris etc.? Sut y gwaredir ar y rhain a'u hamnewid? A oes fersiwn ailddefnyddiadwy? Ystyriwch y deunyddiau y mae eu hangen ar gyfer gweithredu hwylus. Gofynnwch i'r cyflenwyr am gostau oes gyfan a chynlluniau dychwelyd yn ystod y broses brynu.
- b) Ceisiwch ddeall yr ynni a ddefnyddir gan yr offer ac unrhyw ffyrdd o leihau hyn, gan gynnwys diffodd, cynnal ar dymheredd gwahanol (storio oer) a newid cyflymder offer (cypyrddau gwyntyllu/MSC).
- c) Ehangu bywyd yr offer drwy wasanaethu a chynnal a chadw effeithiol. Hefyd, gofynnwch i gyflenwyr am waith cynnal a chadw syml y gallwch ei wneud i gynyddu oes yr offer.

- d) Angen cael gwared ar rywbeth? Gweler [y nodiadau canllaw ar reoli gwastraff](#) neu e-bostiwrch estates-waste@abertawe.ac.uk

3 Pecynnu

- a) Anfon sawl eitem ar yr un pryd: Bydd lleihau nifer y nwyddau a bocsys sy'n cael eu hanfon ar wahân yn lleihau eich effaith ar yr amgylchedd oherwydd cludiant. Bydd rheolau lleol yn amrywio o goleg i goleg.
- b) Gofynnwch am becynnu sy'n ailddefnyddiadwy neu y gellir ei ddychwelyd: Mae cwmnïoedd yn gyfrifol yn gyfreithiol am eu pecynnu. Gofynnwch ba gynlluniau sydd ar gael.
- c) Dadbaciwch focsys neu becynnu cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gyrraedd: Mae hyn yn lleihau'r tebygrwydd o lygru a bod y nwyddau'n troi'n beryglus neu'n wastraff clinigol.
- d) Eitemau y gellir eu chwalu/eu pentyrru: Siaradwch â chyflenwyr am yr hyn y gallant wneud i leihau gwastraff wrth gludo nwyddau.

4 Manylion cyflenwyr

- a) Labelu: Gwiriwch y labeli sy'n gysylltiedig â'r nwyddau rydych chi'n eu prynu: Bydd rhai labeli rydych chi'n gyfarwydd â nhw yn cynnwys:
 - a. FSC

- b. Ynni effeithlon – system yn seiliedig ar sêr
- c. Deunyddiau y gellir eu hailgylchu
- b) Fframweithiau: Defnyddiwch fframweithiau i brynu'r eitemau y mae eu hangen arnoch. Siaradwch â'ch tîm caffael lleol am ragor o wybodaeth.
- c) Ystyriaethau moesegol: Byddwch yn ymwybodol o agweddau eraill ar y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys:
 - a. Amodau gweithwyr wrth brosesu deunyddiau crai, wrth gynhyrchu, wrth ddsbarthu ac wrth osod
 - b. Effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, defnyddio a gwaredu

ffyrdd a syniadau newydd o leihau ein heffaith ar yr amgylchedd

Cysylltwch â ni os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau am brynu cynaliadwy ym Mhrifysgol Abertawe:

- Teifion Maddocks: Swyddog Cynaliadwyedd
- Emily Ingram: Swyddog Cynaliadwyedd
- Hayley Beharrell: Swyddog Cynaliadwyedd

neu anfonwch neges e-bost atom:

sustainability@abertawe.ac.uk

5 Bod yn ymwybodol o ddeunyddiau

- a) Lleihau'r defnydd o blastig defnydd untro: Ystyriwch weithgareddau'r labordy a chanfod opsiynau ailddefnyddiadwy (e.e. gwydr neu blastig) sy'n ddiogel ac yn ymarferol.
- b) Chwiliwch am gynnyrch y gellir eu hailgylchu. Mae PET a HDPE yn blastigion y gellir eu hailgylchu ar y campws. Dadlygrwch bob amser a sicrhewch fod nwyddau'n lân cyn cael gwared arnynt. Gwiriwch reolau labordy lleol i ddeall beth y gellir ei ailgylchu.
- c) Ystyriwch gemegion llai andwyol gan ddefnyddio egwyddorion Cemeg Werdd. Rhowch gynnig ar y nodwedd hon <https://ehs.mit.edu/green-chemistry/> i ymchwilio ymhellach.

6 Cysylltu â ni

Syniad arloesol? Arferion gwaith gwych rydych chi am eu rhannu? Rydym bob amser yn agored i